# Adroddiad Arolygu

**Clwb y Tu Allan i'r Ysgol, Ysgol y Santes Fair**

**Lôn yr Ysgol**
**Owrtyn**
**Wrecsam**
**LL13 0ES**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/06/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb y Tu Allan i'r Ysgol, Ysgol y Santes Fair

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Overton Playcentre |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw<br>Arolygiad ar ôl Cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| **Yr Amgylchedd** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| **Arwain a Rheoli** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus yn y clwb ar ôl ysgol hwn. Cânt gyfleoedd i ddatblygu eu chwarae, eu dysgu a'u hannibyniaeth ac i gael hwyl. Mae'r staff gofal yn eu hadnabod yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae bron pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gymorth cyntaf a diogelu fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i sicrhau llesiant y plant. Maent hefyd yn cefnogi'r plant yn dda pan fyddant yn chwarae, ac yn dangos dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Yn dilyn adolygiad o'r lleoliad, cytunodd y bobl sy'n rhedeg y clwb i roi hyfforddiant i'r staff gofal ar ddatblygu cyfleoedd chwarae awyr agored ymhellach, yn arbennig ar y defnydd o 'ddarnau rhydd' i gyfoethogi chwarae creadigol a chwarae mentrus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol y Santes Fair i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn cwblhau asesiadau risg a chynlluniau sicrhau ansawdd allanol, gan adolygu'r rheini yn rheolaidd. Mae'r amgylchedd yn addas iawn i hybu annibyniaeth y plant; mae'n fawr ac yn gyfarwydd i'r plant.

Caiff y lleoliad ei reoli'n dda, ac mae wedi gwneud cynnydd ers cofrestru yn ogystal ag addasu i fesurau rheoli heintiau COVID-19 a'r canllawiau cysylltiedig ar yr un pryd. Caiff y staff eu cefnogi'n dda drwy brosesau cyfathrebu da a phartneriaethau â'r ysgol, y rhieni ac asiantaethau eraill.

| Llesiant | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
| --- | --- |

Mae'r plant yn gyfforddus ac yn annibynnol, ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Cânt gyfleoedd i wneud dewisiadau addas o ran ble y byddant yn chwarae, yr hyn y byddant yn ei wneud a gyda phwy. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael help pan fydd ei angen arnynt, a'u bod fel arfer yn cael dewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, o ganlyniad i bandemig presennol COVID-19 a chanllawiau'r Llywodraeth, roedd y plant yn cael eu hannog i chwarae yn yr awyr agored yn eu grwpiau cyswllt. Caiff y plant gyfleoedd i gyfrannu eu syniadau ar chwarae ac i roi adborth ar y clwb drwy sesiynau trafod syniadau a thrwy gwblhau holiaduron.

Mae'r plant wedi setlo ac maent yn gyfarwydd â'r plant arall sy'n dod i'r lleoliad a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dod i'r clwb cyn ac ar ôl ysgol, ac maent wedi addasu'n dda i'r trefniadau newydd wrth ddychwelyd i'r clwb ar ôl iddo fod ar gau am gyfnod hir. Caiff anghenion y plant eu diwallu am fod y rhieni yn rhannu anghenion plant unigol â'r staff gofal i sicrhau bod y gofal a roddir yn briodol.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae, yn rhyngweithio'n dda ag eraill ac yn parchu ei gilydd. Maent yn rhannu adnoddau megis peli a chylchoedd, yn cymryd eu tro wrth chwarae â batiau, ac yn cynnwys plant eraill sy'n awyddus i ymuno yn eu chwarae mewn modd caredig a chwrtais. Mae'r plant yn creu eu chwarae eu hunain ar y cyfan, gan ddefnyddio'r cae mawr a'r ardaloedd coediog i redeg o amgylch a chuddio. Byddai'n fuddiol iddynt pe bai mwy o amrywiaeth yn y gweithgareddau awyr agored, a mwy o ddewis o adnoddau addas.

Mae'r plant yn meithrin eu hannibyniaeth a'u sgiliau yn llwyddiannus. Dônt o hyd i'w ffordd o amgylch tir yr ysgol yn hawdd am ei fod mor gyfarwydd iddynt, byddant yn dyfeisio eu gemau eu hunain, ac yn rhoi help llaw drwy roi adnoddau heibio cyn gadael y clwb.

| Gofal a Datblygiad | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff gofal yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae bron pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gymorth cyntaf pediatrig, amddiffyn plant a hylendid diogel, felly gwyddant beth i'w wneud i sicrhau llesiant y plant. Maent yn annog y plant i gadw pellter diogel rhag grwpiau cyswllt eraill ac i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Maent yn gyfarwydd â'r cynlluniau sydd ar waith ar gyfer anghenion meddygol y plant, megis asthma, ac i'r plant hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft o ran cefnogi plant ag anghenion cyfathrebu neu anghenion emosiynol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i ddiogelu'r plant, ac maent wedi cael eu hadolygu ac yn adlewyrchu'r newidiadau mewn arferion o ganlyniad i'r pandemig presennol.

Mae'r staff gofal yn cefnogi rhyngweithio ac ymddygiad y plant yn dda drwy ddilyn polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol y lleoliad, a ysgrifennwyd mewn partneriaeth â'r ysgol i sicrhau cysondeb. Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â phobl eraill ac yn trin y plant ac aelodau eraill o'r staff yn garedig a chynnes. Mae'r staff gofal yn tueddu i fonitro'r plant o bell ac ymyrryd pan fydd angen iddynt wneud hynny.

Mae'r staff gofal yn ymwybodol o sgiliau, anghenion, dewisiadau a chamau datblygu'r plant. Er enghraifft, caiff y plant eu helpu wrth ddefnyddio rhaffau sgipio a batiau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn eu defnyddio'n gywir a diogel. Maent yn canmol y plant am eu cyflawniadau, ni waeth pa mor fach ydynt, ac yn rhoi sicrwydd iddynt mai dyfal donc a dyr y garreg.

Mae'r plant yn ymddiddori yn y gweithgareddau y maent yn eu dewis, er bod yr adnoddau awyr agored yn gyfyngedig. Roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cytuno yn eu hadroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal (Gorffennaf 2021) y byddai'n fuddiol i lesiant y plant pe bai mwy o weithgareddau ar gael oedd â'r nod o'u hannog i fod yn fwy creadigol a mentrus yn eu chwarae. Gwelsom y plant yn gorfforol egnïol, yn chwarae tag a chuddio yn hapus ac yn defnyddio'r amgylchedd yn dda.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ag eraill. Mae nifer o'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol mewn perthynas â rheoli ymddygiad a diwallu anghenion penodol y plant, sydd wedi gwella arferion. Mae rhai ohonynt wedi ymrwymo i gwblhau cymhwyster ‘Gwaith chwarae’. Byddai unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn gwella canlyniadau i'r plant os caiff ei ddefnyddio yn ymarferol i gefnogi'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith ychwanegol, ac maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol tuag at ddarparu'r ‘cynnig rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

## Yr Amgylchedd — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb ar ôl ysgol yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da.  Maent yn gweithio'n agos gyda'r ysgol, sy'n rheoli'r safle, ac maent yn cwblhau rhestrau gwirio iechyd a diogelwch bob dydd, ac yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd. Maent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â thîm glanhau'r ysgol ac yn cael cyngor gan asiantaethau allanol. Mae mesurau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau bob amser a'u bod yn eu deall.  Mae'r staff gofal yn defnyddio cyfarfodydd goruchwylio tîm a rhai unigol i ategu arferion. Mae diogelwch yn flaenoriaeth yn yr ysgol, ac roedd cyfyngiadau ar fynediad i'r adeiladau yn ystod y pandemig.  Mae ffens o gwmpas yr ardaloedd awyr agored, ac mae gweithdrefnau ar waith gan y staff gofal i symud y plant allan o'r ysgol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn rheolaidd, megis profion diogelwch ar y cyfarpar trydanol symudol, y boeler a'r system wresogi, a'r cyfarpar atal tân.

Mae'r clwb yn fawr, a chaiff y plant ddefnyddio neuadd fawr yr ysgol, y cyfleusterau toiled a'r ardaloedd awyr agored. Ni wnaethom arolygu'r amgylchedd dan do o ganlyniad i amseriad yr ymweliad a'r ffaith bod angen dilyn mesurau rheoli heintiau yn agos. Arhosodd y plant y tu allan drwy gydol yr ymweliad arolygu dirybudd. Roedd modd i'r plant eistedd wrth feinciau picnic neu ar y lawnt, ac roeddent yn chwarae ar gae'r ysgol ac yn yr ardaloedd coediog ger ffiniau'r ysgol. Mae'r amgylchedd yn cefnogi annibyniaeth y plant, ac yn darparu rhai gweithgareddau chwarae ysgogol, er y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r toiledau yn hawdd i'w defnyddio ond caiff y defnydd o'r rheini ei reoli'n llym er mwyn lleihau achosion o groesheintio rhwng grwpiau cyswllt. Nid oes llawer o adnoddau ar gael i'r plant yn yr ardaloedd awyr agored, ac roedd angen iddynt aros eu tro a rhannu'r hyn a oedd ar gael. Mae'r ysgol wedi rhoi caniatâd i'r clwb storio cyfarpar mewn sied yn ddiweddar; drwy hyn, bydd modd storio mwy o adnoddau er mwyn rhoi mwy o amrywiaeth i'r plant.

## Arwain a Rheoli — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Overton Playcentre, sy'n sefydliad nid-er-elw sy'n gweithredu yn yr ysgol yn ystod y tymor yn unig, sy'n rhedeg Clwb ar ôl Ysgol, Ysgol y Santes Fair, a hynny'n effeithiol. Caiff y rhieni a'r gofalwyr syniad clir am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn rhedeg o'r datganiad o ddiben a'r adroddiad ar ansawdd y gofal, a chânt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i roi sicrwydd iddynt y bydd y gwasanaeth hwn yn diwallu anghenion eu plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau adolygiad blynyddol o'r lleoliad, sy'n cynnwys adborth a gafwyd gan y plant a'r rhieni. Maent wedi myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf, a'r ffordd y mae'r clwb wedi parhau i weithredu o ystyried bod cyn lleied o blant yn dod bellach. Mae cynllun gweithredu ar gael i wneud gwelliannau, sy'n canolbwyntio ar hyfywedd a datblygu gweithgareddau ac adnoddau chwarae awyr agored. Cafwyd sylwadau gan y rhieni ar y system cofrestru a'r porth bilio newydd. Roedd rhai ohonynt o'r farn bod y system newydd yn llai hyblyg na threfniadau blaenorol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal yn dda, ac mae prosesau cyfathrebu da ar waith i gefnogi'r staff. Cadarnhaodd y staff gofal fod cyfarfodydd staff, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol yn cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol. Nid oes unrhyw aelodau newydd o'r staff wedi cael eu penodi, ond mae system recriwtio gadarn ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi ystyriaeth briodol i gynnal cymarebau staff a phlant da. Roedd dau aelod o'r staff gofal yn gofalu am naw plentyn pan wnaethom gyrraedd ar gyfer yr arolygiad.  Roedd yr unigolyn cyfrifol a staff gofal ychwanegol, a all gyflenwi os bydd angen, ar gael yn y canolfan chwarae gyfagos, sy'n cael ei rhedeg gan yr un sefydliad. Mae taflenni cofrestru ar gael i gyfeirio atynt yn ystod oriau agor ac os bydd argyfwng, yn ychwanegol at y defnydd o'r systemau ar-lein sydd eisoes ar waith.

Mae'r partneriaethau'n effeithiol. Mae gan yr unigolyn cyfrifol ac aelodau o'r pwyllgor gydberthnasau da â'r rhieni a'r gofalwyr, yr ysgol leol ac asiantaethau cymorth yn yr awdurdod lleol. Maent yn gofyn am wybodaeth berthnasol gan y rhieni am anghenion y plant er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gofal priodol ar gyfer pob plentyn.  Defnyddir porth i rieni a nifer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i anfon negeseuon, ffotograffau a fideos at y rhieni ac i gadw mewn cysylltiad â nhw.  Yn ystod y pandemig aeth y staff gofal ati i wneud fideo ohonynt eu hunain yn dawnsio wrth wisgo dillad gwarchod er mwyn i'r rhieni a'r plant allu trafod a helpu'r plant i addasu i'r sefyllfa newydd pan fyddent yn dychwelyd i'r clwb. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod wedi gwerthfawrogi ymdrechion y staff yn fawr a'u bod yn gwybod eu bod wir yn hoffi'r plant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Cyfeirio at 'Mwy na geiriau: y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad.

A2 Darparu digon o adnoddau amrywiol ar gyfer chwarae awyr agored.

A3 Gwneud gwaith dilynol ar welliannau a nodwyd yn adroddiad y lleoliad ar ansawdd y gofal er mwyn dechrau defnyddio 'darnau rhydd' ac ystyried hybu gweithgareddau sy'n ddiddorol ac yn greadigol, megis adeiladu cuddfannau, yn ogystal â'r gweithgareddau corfforol y mae'r plant eisoes yn eu mwynhau. Gall sefydliadau cymorth megis 'Chwarae Cymru' a 'Clybiau Plant Cymru' gynnig hyfforddiant a chymorth cyffredinol.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/09/2021